



Medi 2025

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd swydd Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3 (32.5 awr) yn y Ganolfan Cefnogi Dysgu Ysgol Penglais. Fe fyddwch yn ymuno â'r ysgol mewn amser cyffrous wrth i ni fyw ein gweledigaeth yr ysgol.

'Mae Ysgol Penglais yn ysgol hapus, uchelgeisiol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.' Rydym yn gweithio'n galed gyda staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol i sicrhau fod Ysgol Penglais yn ffynnu i fod yr ysgol arbennig y mae'r gymuned yn ei haeddu. Rydym yn gweithio'n barhaus i gyrraedd y safonau uchaf o ran cyrhaeddiad disgyblion, ymddygiad a safon dysgu ac addysgu.

Mae gennym gorff o staff profiadol sydd yn gweithio'n galed tra'n llwyddo i greu naws cynorthwyol a chyfeillgar. Mae'r disgyblion eisiau llwyddo yn uchel ac eisiau cael eu herio a'u cefnogi i wneud hynny. Mae yna lawer o anghenion gwahanol yn yr ysgol ac mae'r adran gynhwysol yn gweithio'n galed ar draws yr ysgol i gefnogi'r disgyblion pan bo'r angen. Mae'r 6ed ddosbarth yn gryf gyda tua 230 o ddisgyblion ac yn cyrraedd safonau uchel iawn.

Wrth ymuno ag Ysgol Penglais, fe gewch eich cefnogi yn broffesiynol i gyrraedd rhagoriaeth yn eich swydd. Gallaf addo i chi brofiad heriol ond a fydd yn y pendraw yn brofiad gwerthfawr wrth i ni symud ymlaen i fod yn ysgol ragorol.

Mae'r wybodaeth yn y pecyn yn rhoi darlun o'r ysgol i chi. Pe dymunech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helena Clements ar hcl@penglais.org.uk neu ffoniwch 01970 624811.

Edrychaf ymlaen i dderbyn eich ffurflen gais.

Yn gywir,

Ms Mair Hughes
Pennaeth

Pennaeth / Headteacher:- Ms Mair Hughes



GWELEDIGAETH YSGOL PENGLAIS:

Anelu am Ragoriaeth

Mae Ysgol Penglais yn un hapus, uchelgeisiol, amrywiaethol a llwyddiannus lle mae pob un yn cael ei barchu a'i werthfawrogi. Rydym yn gymuned gynhwysol gref, lle mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Wrth ddatblygu ein sgiliau annibynnol a gweithio gyda staff, teuluoedd ac eraill yn y gymuned fe wnawn lwyddo a chyflawni ein gorau. Mae'r ysgol yn gymuned egniol gyda myfyrwyr a staff yn cydweithio, yn dysgu, yn meddwl ac yn gweithio'n galed. Rydym yn galluogi ein disgyblion i wynebu heriau ac yn cydnabod fod hyn yn allweddol i'w datblygiad unigol. Wrth ddatblygu dewrder, hyder, gwytnwch, annibyniaeth a goddefgarwch bydd ein myfyrwyr yn dod yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd.



GWERTHOEDD YSGOL PENGLAIS

Bod yn barchus a charedig

Bod yn uchelgeisiol a gwydn

**Datblygu annibyniaeth, hyder
a chyfrifoldeb**

**Croesawu amrywiaeth a dathlu
llwyddiannau**

**Bod yn ddinasyddion balch a
gweithgar yn ein cymunedau**

Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3 Gradd: 6 scp 7 - 10 £25,584 - £26,835 pro rata 32.5 awr yr wythnos, yn ystod y tymor

Rydym am benodi sawl Cynorthwydd Addysgu Lefel 2 i weithio gyda disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth gan yr adran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn y Ganolfan Cefnogi Dysgu yn Ysgol Penglais. Prif ffocws eich gwaith fydd cefnogi disgyblion sydd gydag ystod eang o anghenion ADY. Byddwch yn cefnogi y disgybl yn y dosbarth er mwyn eu galluogi i ddilyn y cwricwlwm.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn mwynhau gweithio mewn awyrgylch brysur. Bydd angen i'r person fod yn flaengar yn y rôl er mwyn sicrhau fod disgyblion yn gallu dilyn y cwricwlwm ac yn gwneud cynnydd da yn eu haddysg. Mae'r rôl yn un delfrydol ar gyfer unigolyn uchelgeisiol sydd gyda diddordeb gwirioneddol mewn cefnogi disgyblion i gyrraedd eu gwir botensial.

Mae hwn yn gyfle gwych i ymgeisydd uchelgeisiol gael chwarae rôl allweddol i gynyddu uchelgeisiau a llwyddiannau ein disgyblion, ac felly yn cyfrannu at siwrnai Ysgol Penglais i fod yn ysgol ragorol.

Mae gan Ysgol Penglais lawer i'w gynnig:

- ysgol sydd yn seiliedig ar waith ymchwil gyda pherthnasau da rhwng staff a disgyblion
- ymroddiad i ddatblygiad proffesiynol staff er mwyn cyrraedd rhagoriaeth
- agos i dref Prifysgol bywiog Aberystwyth
- wedi ei leoli ar arfordir bendigedig bae Ceredigion, ardal o hyfrydwch naturiol

Am fwy o fanylion, cysylltwch a Helena Clements (PA i'r Pennaeth) ar 01970 624811 neu drwy e-bost hcl@penglais.org.uk

Mae Ysgol Penglais yn ymrwymedig i ddiogelu ac annog budd a lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, ac yn disgwyl i holl staff a gwirfoddolwyr rannu yr ymrwymiad hwn.

Bydd raid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i ymgeisio am DBS a'r archwiliadau eraill sydd yn addas ar gyfer y swydd.

Mae Ysgol Penglais yn gyflogwr sydd yn sicrhau cyfleoedd cyfartal.

Dyddiad cau: 18/09/2025

Cyfweliad: wythnos yn dechrau 22/09/2025

Croeso i Canolfan Ni



Mae Canolfan Ni yn Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Penglais sy'n darparu cymorth i fyfyrwyr gydag anawsterau dysgu difrifol/dwys a lluosog. Mae gan bob myfyriwr ddatganiad o anghenion addysgol arbennig/SAPRA neu IDP ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, anawsterau corfforol a meddygol, anawsterau dysgu dwys a lluosog neu gyflyrau sbectrwm awtistig (ASC). Mae Canolfan Ni yn cefnogi myfyrwyr rhwng 11 a 19 oed.

Mae pob plentyn sy'n mynychu Canolfan Ni yn cael ei drin fel unigolyn, gan sicrhau bod eu hanghenion addysgol a therapiwtig yn cael eu diwallu, gan eu galluogi i ffynnu. Rydym yn cefnogi myfyrwyr ag ystod eang o anghenion ac ochr yn ochr â chymorth academiaidd, mae staff Canolfan Ni hefyd yn darparu cymorth a chymorth rheolaidd gyda gofal personol, toiledau, bwydo, gweinyddu meddyginiaethau, hoisting, trosglwyddo a lleoli.

Mae cwricwlwm Canolfan Ni yn cael ei gyflwyno mewn ffordd thematig, rydym hefyd yn darparu ystod eang o ymyriadau sy'n benodol i anghenion unigol ein myfyrwyr. Mae staff Canolfan Ni yn darparu rhaglenni dan oruchwyliaeth arbenigwyr e.e. ffisiotherapi, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion iechyd galwedigaethol. Mae myfyrwyr yn cael rhai o'u gwersi yng Nghanolfan Ni ac yn ymuno â gwersi prif ffrwd lle bo hynny'n briodol.

Rydym yn chwilio am rywun i ymuno â'n tîm sydd ag angerdd dros weithio gyda myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a rhywun sydd wir eisiau gwneud gwahaniaeth! Mae hwn yn gyfle cyffrous i fod yn rhan o dîm rhagorol sy'n cefnogi myfyrwyr anhygoel, gydag ystod eang o anghenion, yn ymgysylltu â'u dysgu ac wrth ddatblygu eu sgiliau personol a bywyd tra hefyd yn cefnogi eu hanghenion corfforol a meddygol.

Swydd Ddisgrifiad – Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 2

Teitl y swydd	Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 2
Graddfa Cyflog:	Lefel 3 Gradd: 6 scp 7 - 10 £25,584 - £26,835 pro rata
Oriau ac wythnosau:	32.5 awr yr wythnos, yn ystod y tymor
Yn gyfrifol i:	Athro sydd yn gyfrifol am Canolfan Ni

Pwrpas Craidd:

Gweithio o dan arweiniad uwch aelodau o'r staff/staff addysgu ac o fewn system gytunedig o oruchwyliaeth; gweithredu rhaglenni gwaith cytunedig gydag unigolion / grwpiau, oddi mewn neu oddi allan i'r ystafell ddosbarth. Gallai hyn olygu'r rhai sy'n galw am wybodaeth fanwl ac arbenigol mewn rhai meysydd, a bydd yn golygu cynorthwyo'r athro neu'r athrawes gyda'r cylch cynllunio cyflawn, yn ogystal â rheolaeth staff a rheoli/paratoi adnoddau.

O bryd i'w gilydd hefyd, gall staff oruchwyllo dosbarthiadau cyfan yn ystod absenoldeb byr-dymor athrawon. Bydd y prif bwyslais ar gynnal disgyblaeth dda a chadw'r disgyblion wrth eu gwaith.

Prif gyfrifoldebau	Prif dasgau
Cefnogi disgyblion	- Goruchwyllo a darparu cefnogaeth neilltuol i ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion arbennig, gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at weithgareddau dysgu. - Defnyddio profiad/hyfforddiant/sgiliau arbenigol (cwricwlaid/dysgu) i gefnogi disgyblion. - Cynorthwyo gyda rheolaeth Cynlluniau Addysg/Ymddygiad Unigol a rhaglenni Gofal Personol. - Sefydlu perthynas adeiladol gyda'r disgyblion, gan ryngweithio â hwy yn unol â'u hanghenion unigol. - Sefydlu perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion, gan weithredu fel patrwm ymddwyn a gosod disgwyliadau uchel. - Hyrwyddo cynhwysiant a derbyniad i'r holl ddisgyblion - Rhoi cefnogaeth gyson i'r disgyblion gan gydnabod ar yr un pryd eu hanghenion unigol, ac ymateb iddynt. - Gosod disgwyliadau heriol sy'n gofyn llawer, a hyrwyddo hunan-werth ac annibyniaeth - Herio a symbylu disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-werth. - Annog disgyblion i ryngweithio ac i weithio ar y cyd gydag eraill, a chynnwys yr holl ddisgyblion yn y gweithgareddau - Hyrwyddo annibyniaeth a defnyddio strategaethau i gydnabod a gwobrwy cyflawniad yn deillio o hunanddibyniaeth - Annog disgyblion i weithredu'n annibynnol, fel y bo'n briodol - Rhoi adborth i ddisgyblion ynghylch cynnydd a chyflawniad
Cefnogi'r Athro neu'r Athrawes	- Gweithio gyda'r athro neu'r athrawes i sefydlu amgylchedd dysgu priodol - Gweithio gyda'r athro neu'r athrawes ar gynllunio gwersi, gwerthuso a diwygio gwersi/cynlluniau gwaith fel y bo'n briodol

	• Monitro a gwerthuso ymateb disgyblion i weithgareddau dysgu drwy arsylwi a chadw cofnod cynlluniedig o gyflawniad ar sail amcanion dysgu gosodedig • Rhoi adborth gwrthrychol a chywir yn ôl y gofyn, ynghyd ag adroddiadau, i'r athro neu'r athrawes ynghylch cyflawniad, cynnydd a materion eraill sy'n ymwneud â'r disgyblion, gan sicrhau argaeledd y dystiolaeth briodol • Bod yn gyfrifol am gadw cofnodion a'u diweddarau yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r athro neu'r athrawes, gan gyfrannu tuag at adolygu systemau/cofnodion yn ôl y gofyn • Ymgymryd â marcio gwaith y disgyblion a chadw cofnod cywir o gyflawniad/cynnydd • Hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol, ac ymddygiad da, ymhlith y disgyblion, gan ddelio ar unwaith gyda gwrthdaro ac unrhyw ddigwyddiadau, yn unol â'r polisi sefydledig, ac annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain • Cydlynu'n effeithiol a sensitif, o fewn eich swyddogaeth/cyfrifoldeb, gyda'r rhieni/gwarchodwyr yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r athro neu'r athrawes, a chymryd rhan mewn sesiynau/cyfarfodydd adborth gyda'r rhieni/gwarchodwyr, neu'n unol â'r cyfarwyddyd • Gweinyddu ac asesu profion arferol a goruchwyllo arholiadau/profion • Darparu cefnogaeth gyffredinol, yn glerigol/gweinyddol e.e. gweinyddu gwaith cwrs, cynhyrchu taflenni gwaith ar gyfer gweithgareddau cytunedig, ac ati
Cefnogi'r Cwricwlwm	• Cefnogi disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm • Gweithredu gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu y cytunwyd arnynt, gan addasu'r gweithgareddau yn ôl ymateb/anghenion y disgyblion. Gall hyn gynnwys gwersi sgiliau cymunedol; byw'n iach; profiad gwaith; dysgu yn yr awyr agored a chelf fynegiannol. Gall gynnwys mynd â phlant allan i fusnesau/elusennau lleol neu fynd allan ar deithiau cerdded natur/garddio. • Gweithredu strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol e.e. llythrennedd, rhifedd, CA3, y blynyddoedd cynnar, a gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd a ddaw o weithgareddau dysgu eraill i gefnogi datblygiad sgiliau perthnasol • Cefnogi'r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu, gan ddatblygu hyfedredd disgyblion a'u hannibynniaeth fel defnyddwyr y dechnoleg • Cynorthwyo'r disgyblion i gael mynediad at weithgareddau dysgu drwy gyfrwng cefnogaeth arbenigol • Penderfynu ar yr angen am offer ac adnoddau cyffredinol ac arbenigol, eu paratoi, a'u cynnal a'u cadw
Cefnogi'r Ysgol	• Bod yn ymwybodol o bolisiâu a threfniadaethau perthnasol, gan gydymffurfio â hwy, yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol

	- Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu - Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol - Sefydlu perthynas adeiladol gyda phobl eraill gan gyfathrebu gydag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill, mewn cydweithrediad â'r athro neu'r athrawes, er mwyn cefnogi cyflawniad a chynnydd y disgyblion - Mynychu cyfarfodydd rheolaidd a chymryd rhan ynddynt - Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill yn ôl y gofyn - Cydnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigol eich hunan a defnyddio'r rhain i gynghori a chefnogi eraill - Darparu arweiniad a goruchwyliaeth briodol a chynorthwyo gyda hyfforddiant a datblygiad staff fel y bo'n briodol - Ymgymryd â goruchwyllo cynlluniedig disgyblion mewn gweithgareddau dysgu yn ystod oriau tu allan i'r ysgol - Goruchwyllo disgyblion ar ymweliadau, gwibdeithiau, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, yn ôl y gofyn
Arall	- Bod yn ymwybodol o, a chydymffurfio a pholisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a chyfrinachedd, gan hysbysu person priodol ynghylch unrhyw bryderon - Bod yn ymwybodol o, a chefnogi gwahaniaeth a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael fynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu a datblygu. - Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd fel bo angen. - Datblygu perthynas effeithiol a chyfathrebu gydag eraill. - Cymryd rhan mewn hyfforddiant a weithgareddau dysgu eraill a rheoli perfformiad fel bo'r angen - Adnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigol a defnyddio'r rhain i gynghori a chynorthwyo eraill - Ymgymryd ag unrhyw dasg sydd yn gymesur gyda statws y gwaith o bryd i'w gilydd, fel y penodir gan y Pennaeth

Nid yw'r disgrifiad swydd o angenrheidrwydd yn ddiffiniad llawn o'r swydd. Mi fydd yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, a gall cael ei addasu ar unrhyw adeg ar ôl ymgynghoriad gyda'r person yn dal y swydd

Manyleb Bersonol- Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3

Cymwysterau	- Sgiliau rhifedd/llythrennedd da - CGC 3 (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol – NVQ) Cynorthwywyr Addysgu neu gymhwyster neu brofiad tebyg - Hyfforddiant yn y strategaethau perthnasol e.e. llythrennedd a/neu mewn maes neilltuol o'r cwricwlwm neu ddysgu e.e. dwyieithrwydd, iaith arwyddion, dyslecsia, TGCh, mathemateg, Saesneg, CACHE, ac ati. - Hyfforddiant cymorth cyntaf priodol
-------------	---

Profiadau	- Gweithio gyda, neu ofalu am, blant o'r oed perthnasol - Hyfforddiant yn y strategaethau dysgu perthnasol e.e. llythrennedd - Hyfforddiant cymorth cyntaf/hyfforddiant briodol
Sgiliau	- Y gallu i ddefnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi'r dysgu - Defnydd o offer eraill technoleg – fideo, llungopiwr. - Gwybodaeth drylwyr o bolisiâu/codau ymarfer perthnasol, ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol. - Gwybodaeth ddigonol o'r cwricwlwm cenedlaethol/cyfnod sylfaen a rhaglenni/strategaethau dysgu perthnasol eraill. - Dealltwriaeth o egwyddorion datblygiad a phrosesau dysgu'r plentyn. - Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu. - Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion - Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau'r ystafell ddosbarth a'ch safle bersonol o fewn y swyddogaethau hynny
Rhinweddau	- Parodrwydd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth broffesiynol drwy fynychu cyrsiau/cyfleoedd hyfforddi addas - Agwedd hyblyg, amyneddgar ac yn gweithio'n galed fel rhan o dim - Ymroddiad llwyr i ddiogelu plant a disgyblion - Ymroddiad llwyr i gyfleoedd teg - Presenoldeb a phrydlondeb rhagorol
Arall	Ymroddiad i ethos ac amcanion yr ysgol a'r gymuned